| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **13 MAI, 2010** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor** |
| **ADRODDIAD GAN** | **Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol** |
| **GWEITHREDIAD** | **Dyrannu Seddau ar Bwyllgorau'r Cyngor.** |

---

## 1 CYFLWYNIAD

1.1 Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, Adran 15, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cyfansoddiad ei bwyllgorau ac is-bwyllgorau yn adlewyrchu cryfderau'r gwahanol grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor.

1.2 Mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor ar hyn o bryd fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 35 |
| Annibynnol | 18 |
| Llais Gwynedd | 12 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 5 |
| Llafur | 4 |
| Aelod Unigol | 1 |

## 2. DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma’r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â’r nifer o’r holl seddau sydd gan aelodau’r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o’r seddau ar y pwyllgor â’r nifer o seddau sydd gan aelodau’r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei wneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd.

2.4 Mae pedwar pwyllgor, sef Pwyllgor Cwynion, Is-bwyllgor Elusennau a'r Is-bwyllgorau Gosod Tai Bangor a Chaernarfon erbyn hyn wedi dod i ben ac felly mae lleihad yn nifer y seddau ar bwyllgorau'r Cyngor.

2.5 Yn ogystal â hyn, mae nifer yr aelodau yn Grŵp Llais Gwynedd wedi lleihau sy'n golygu bod dyraniad y seddau ar brif bwyllgorau Cyngor i'r grŵp yn llai.

2.6 Os cytunir i newid dyraniad y seddau golyga hyn bod y Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol yn colli sedd i Grŵp Plaid Cymru ar y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Lleol; y Grŵp Llafur yn colli sedd i Grŵp Plaid Cymru ar Bwyllgor Archwilio; a Grŵp Llais Gwynedd yn colli sedd i'r Grŵp Annibynnol ar y Prif Bwyllgor Craffu. (gweler **Atodiad A**)

2.7 Cyfarfu Grŵp Busnes y Cyngor ar 30 Mawrth a 26 Ebrill 2010, a chytunwyd i argymell y newidiadau i'r pwyllgorau fel y noder yn 2.4 - 2.6 uchod.

## 3. CADEIRYDDIAETHAU AC IS-GADEIRYDDIAETHAU

3.1 Yn unol â rheol 6.2 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen)(Cymru) 2007 ni all aelod o'r un grŵp gwleidyddol â chadeirydd y Bwrdd fod yn gadeirydd nac yn is-gadeirydd y Prif Bwyllgor Craffu na chadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

3.2 Yn dilyn dileu'r Pwyllgor Cwynion mae nifer y cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau ar bwyllgorau'r Cyngor yn llai.

3.3 Cyfarfu Grŵp Busnes y Cyngor ar 30 Mawrth a 26 Ebrill, 2010 a chytunwyd i argymell dyrannu cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau prif bwyllgorau'r Cyngor fel y noder yn **Atodiad B**.

## 4. GWEITHREDIAD

4.1 Gofynnir i'r Cyngor:-

i. fabwysiadu'r dyraniad a amlinellir yn Atodiad A;
ii. mabwysiadu'r dyraniad cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau a amlinellir yn Atodiad B.

**ATODIAD A**

## BWRDD Y CYNGOR A'R PRIF BWYLLGOR CRAFFU

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd y Cyngor | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |
| Prif Bwyllgor Craffu | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |

## PWYLLGORAU CRAFFU ERAILL

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu | 7 | 4 | 3 | 1 | |
| Amgylchedd | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |
| Plant a Phobl Ifanc | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |
| Gofal | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |

## PWYLLGORAU ERAILL

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio | 8 | 4 | 3 | | |
| Pensiynau | 2 | 2 | Sedd wag | 1 | 1 |
| Cynllunio Canolog | 5 | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Trwyddedu Canolog | 5 | 3 | 2 | 1 | |
| Apelau Cyflogaeth | 3 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Adnoddau Dynol | 6 | 2 | 2 | 1 | |
| CYSAG | 3 | 2 | 1 | 1 | |
| Cydbwyllgor Lleol | 6 | 2 | 2 | | 1 |
| Cydbwyllgor AAA | 3 | 2 | 1 | | 1 |
| Iaith | 3 | 2 | 2 | | |

**ATODIAD B**

## DYRANNU CADEIRYDDIAETHAU AC IS-GADEIRYDDIAETHAU 2010 - 2011

**Cadeirydd y Cyngor:**
**Is-gadeirydd y Cyngor:**

| | **Pwyllgor** | **Cadeirydd** | **Is-gadeirydd** |
|---|---|---|---|
| 1 | Bwrdd y Cyngor<br>Council Board | **Plaid Cymru** | **Plaid Cymru** |
| 2 | Prif Bwyllgor Craffu | **Democratiaid Rhyddfrydol** | **Annibynnol** |
| 3 | Plant a Phobl Ifanc | **Annibynnol** | **Llafur** |
| 4 | Amgylchedd | **Democratiaid Rhyddfrydol** | **Plaid Cymru** |
| 5 | Gofal | **Llais Gwynedd** | **Plaid Cymru** |
| 6 | Datblygu | **Plaid Cymru** | **Plaid Cymru** |
| 7 | Archwilio | **Annibynnol** | **Llais Gwynedd** |
| 8 | Cynllunio Canolog | **Plaid Cymru** | **Llais Gwynedd** |
| 9 | Trwyddedu Canolog | **Annibynnol** | **Plaid Cymru** |
| 10 | Pensiynau | **Llafur** | **Plaid Cymru** |
| 11 | Adnoddau Dynol | **Annibynnol** | **Plaid Cymru** |
| 12 | Apelau Cyflogaeth | **Plaid Cymru** | **Annibynnol** |
| 13 | Ardal Arfon | **Plaid Cymru** | **Annibynnol** |
| 14 | Ardal Dwyfor | **Llais Gwynedd** | **Plaid Cymru** |
| 15 | Ardal Meirionnydd | **Plaid Cymru** | **Llais Gwynedd** |